*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal**
**ar**
**Dydd Mercher, 28ain Mehefin, 2023 am 1.30 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Willians – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Llun, 26 Mehefin 2023. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mai 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 16)**

### 3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD - GWYBODAETH

Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd

4. **CYMERADWYO ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD O DREFNIADAU'R BARTNERIAETH CYMUNEDAU DIOGEL AR GYFER RHANBARTH CWM TAF MORGANNWG**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n ceisio caniatâd er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) symud i Bartneriaeth Cymunedau Diogel newydd rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, a fydd yn gwasanaethu ardaloedd Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf (RhCT), Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, a hynny'n dilyn adolygiad o'r trefniadau presennol.

**(Tudalennau 17 - 62)**

5. **CANOL TREF ABERDÂR - STRATEGAETH DDRAFFT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi diweddariad ar y gwaith sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn er mwyn llunio'r Strategaeth Ddrafft sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi a chydlynu buddsoddiadau ar gyfer Canol Tref Aberdâr yn y dyfodol a cheisio caniatâd i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

**(Tudalennau 63 - 158)**

6. **CYNNIG I ESTYN GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CBS RHONDDA CYNON TAF MEWN PERTHYNAS Â MESURAU RHEOLI CŴN**

Derbyn adroddiad ar y cyd sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnig i estyn cyfnod y ddau Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â Mesurau Rheoli Cŵn (sydd ar fin dod i ben) ac awdurdodi swyddogion i hysbysebu'r gorchmynion arfaethedig a chynnal ymgynghoriad yn unol â gofynion Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

**(Tudalennau 159 - 178)**

7. **YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNNIG I SEFYDLU YSGOL ARBENNIG NEWYDD YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i geisio caniatâd ffurfiol i ddechrau'r broses ymgynghori angenrheidiol a pherthnasol ar gyfer y cynnig i agor ysgol arbennig 3-19 oed yn RhCT, ar gyfer dalgylchoedd Ysgol Arbennig Park Lane, Ysgol Hen Felin ac Ysgol Tŷ Coch.

**(Tudalennau 179 - 224)**

8. **TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**9. CYTUNDEB CYD-FENTER**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig am y datblygiadau diweddaraf o ran y Cytundeb Cyd-fenter.

**(Tudalennau 225 - 230)**

**10. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2018/23: DIWEDDARIAD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn themâu allweddol Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018 i 2023.

**(Tudalennau 231 - 282)**

**11. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol